# cwmpawd

eglwys efengylaidd
gymraeg caerdydd



Rhif 52
Ebrill - Mehefin 2008

# Golygyddol

## *Gwynn Williams*

Dechreuodd y gwanwyn yn gynnar ar ôl gaeaf cymharol fwyn ond mae'r wythnosau diwethaf o dywydd oerach wedi arafu pob tyfiant. Er hynny gwelwn arwyddion o fywyd newydd eto ym myd natur. Roedd y cennin Pedr allan yn anarferol o gynnar a bellach cawn y coed wedi dechrau deilio, y chwyn yn ailddechrau tyfu yn yr ardd a'r lawntiau angen eu torri.

Wrth weld yr adfywiad naturiol hwn atgoffir ni am yr angen am adfywiad ysbrydol hefyd yn ein gwlad. Yn ddiweddar cefais f'atgoffa o'r gwaith ysbrydol rhyfeddol a ddigwyddodd yng Nghymru yn y cyfnod 1735–1850 pan anwyd cenedl gyfan fel petai i'r ffydd Gristnogol, gyda 68% (os deallais yn iawn) yn ôl sensws 1850 yn mynychu lle o addoliad o ganlyniad i'r diwygiadau. Bellach, fel y gwyddom, dim ond tua 2% sydd yn mynychu lle o addoliad Cristnogol yn wythnosol yng Nghymru. Eto mewn mannau eraill yn ein byd gwelwn waith Duw yn mynd ymlaen ar garlam.

Mor bell y bu i ni syrthio fel cenedl. Ymhyfrydwn yn y ffaith fod yr iaith Gymraeg bellach rywfaint ar gynnydd, a da yw cael Cynulliad a chanddo bwerau ychwanegol. Ond cywilydd a gostyngeiddrwydd ddylai gael eu creu ynom wrth weld ein cyflwr ysbrydol; gostyngeiddrwydd sydd yn arwain at edifeirwch a galarnad, gyda gweddi y bydd i Dduw eto drugarhau wrthym a dod i'n plith. Yn y cyfamser medrwn fraenaru'r tir ar gyfer hau'r had trwy fod yn ddiwyd yn ein hymdrechion i ddysgu gwirioneddau'r efengyl ogoneddus i genedl sydd bellach yn ddigon anwybodus ohonynt, gan weddïo y bydd i Dduw ymweld â ni eto mewn argyhoeddiad a nerth.

# Dydd y Penteco

*Noel Gibbard*

Ymhlith yr holl addewidion yn yr Hen Destament, mae tair yn amlwg iawn. Rhoddodd Duw addewid am Waredwr, addewid am yr Ysbryd Glân, ac addewid am goncwest derfynol y Gwaredwr. Cyflawnwyd y gyntaf yn nyfodiad yr Arglwydd Iesu Grist, a bydd cyflawniad yr olaf yn ailddyfodiad Iesu Grist. Ar ddydd y Pentecost, cyflawnwyd yr ADDEWID am yr Ysbryd Glân (Actau 2; Joel 2:28-32).

Un o wyliau mawr yr Iddewon oedd y Pentecost, a ddigwyddai saith wythnos ar ôl y Pasg, i ddathlu'r cynhaeaf, a hefyd, cyn dyfodiad Iesu Grist, cofiwyd am roi'r Deg Gorchymyn. Daeth yr Iesu i sicrhau cynhaeaf ysbrydol, ac i ysgrifennu'r gyfraith ar galonnau ei bobl. Yn Jerwsalem, ar ddydd y Pentecost, roedd y disgyblion i dderbyn 'addewid y Tad', yr hyn a 'glywsoch gennyf fi' (Ioan 14:16, Actau 1:8, a rhagflas i'r disgyblion yn Ioan 20:22).

Cyflawnwyd yr addewid ar sail ATGYFODIAD Iesu Grist: 'Am hynny, wedi ei ddyrchafu ef trwy ddeheulaw Duw, ac iddo dderbyn gan y Tad yr addewid o'r Ysbryd Glân, efe a dywalltodd y peth yma yr ydych chwi yr awron yn ei weled ac yn ei glywed' (Actau 2:13). Rhaid wrth sail i'n hiachawdwriaeth, a chafwyd honno yn aberth ac atgyfodiad Iesu Grist; ond roedd eisiau cymhwyso'r iachawdwriaeth, a gwaith yr Ysbryd Glân yw gwneud hynny.

Roedd y Pentecost yn ddigwyddiad HANESYDDOL. Digwyddodd ar ddiwrnod penodol, y gall pobl Dduw gyfeirio yn ôl ato. Cyhoeddwyd, unwaith ac am byth, fod yr Ysbryd wedi ei roi i'r Eglwys. Mae hithau yn awr yng ngoruchwyliaeth yr Ysbryd. Mynegwyd gwaith yr Ysbryd yn yr Hen Destament, ond nodweddir Actau 2 gan rym anarferol ('gwynt nerthol'), a helaethrwydd (pobl o Asia Leiaf, yr Eidal ac Affrica; Actau 2:5, 9-14). Nid y genedl etholedig sy'n ganolog yn awr, ond y bobl sydd wedi eu galw, ac i'w galw, i Eglwys Crist. A nodwedd arall yw helaethrwydd y fendith

st

ar ddydd y Pentecost; 'tywalltwyd' yr Ysbryd (Joel 2:28-32, Actau 2:17). Cadarnhawyd y rhoi yn Actau 10, pan ddanfonwyd Pedr at y cenedl ddynion.

Er bod y Pentecost yn ddigwyddiad hanesyddol, unwaith am byth, y mae hefyd yn sail i BOSIBILIADAU di-ben-draw. Mae'r Ysbryd Glân ar waith yn yr Eglwys ac yn y byd. Gall weithredu'n dawel, ond effeithiol, yng nghalonnau anghredinwyr a chredinwyr; gall ddod fel gwlith y bore; fel cawod ysgafn; neu yn nerthol, nes ysgubo cannoedd i deyrnas Dduw.

Mae o leiaf dri pheth y dylem eu cofio wrth ddarllen Actau 2. Yn gyntaf, pwysigrwydd yr EGLWYS. Ffurfio corff Crist y mae'r Ysbryd Glân. Ef yw ei nerth; yr un sy'n rhoi doniau iddi; yn adfywio, ac yn arwain. Ef sy'n sicrhau undeb (1 Corinthiaid 12; Effesiaid 4:3-4).

Yn ail, ei dyletswydd GENHADOL. Sŵn traed y tystion a glywir yn Llyfr y Actau. Maent yn llawn brwdfrydedd a sêl i feddiannu tir newydd i'r Arglwydd Iesu Grist. Fel y dywedodd yr Iesu, 'chwi a fyddwch dystion i mi, yn Jerwsalem, ac yn holl Jwdea a Samaria, a hyd eithaf y ddaear'. Ac un yw'r genhadaeth Gristnogol, gartref ac oddi cartref. Mae miloedd ar filoedd heb yr efengyl a heb Feibl. Iesu oedd y cenhadwr mawr, ond yng ngrym yr Ysbryd y gwnaeth ef ei waith. Mwy o lawer yw ein hangen ninnau am nerth yr Ysbryd. Pan fydd ef wrth ei waith, mae'r Iesu yn siŵr o gael ei ddyrchafu, fel yn Actau 2.

Yn olaf, oherwydd y posibiliadau, fel canlyniad i roi'r Ysbryd, ni ddylem anghofio'r dimensiwn o DDIWYGIAD. Gwelodd Duw yn dda, hyd yn oed yng Nghymru, i gyflymu ei waith achubol. Gwelodd yn dda ymweld â'i bobl, a thrwyddynt fendithio ardaloedd cyfain. Disgrifir y cyfnodau hyn fel 'amseroedd o fywhad o bresenoldeb yr Arglwydd' (Actau 2:19). Pan ddaw amser felly unwaith eto yng Nghymru, ni fydd gennym ddim i'w ddweud, ond ei bod yn debyg i ddydd y Pentecost.

# Tystiolaeth Dr Cei (1911-2008)



*Ar 7 Chwefror cynhaliwyd angladd Dr Ceinwen H. Thomas, a fu'n aelod ffyddlon o'r eglwys hon am flynyddoedd lawer. Cafodd nifer ohonom gyfle i fod yno i dalu'r gymwynas olaf â'r wraig arbennig hon, ac i gydymdeimlo â'i theulu, ac yn arbennig ei dwy nith, Janet Thomas a Glynis Huish. Gan iddi dreulio'i blynyddoedd olaf mewn cartref gofal yn ardal Hengoed, nid yw rhai o'n haelodau mwy diweddar yn cofio ei ffyddlondeb a'i hargyhoeddiadau cryf.*

*Un a'i gwreiddiau yn ddwfn yn Nantgarw oedd Dr Ceinwen Thomas, ac un o Gymry Cymraeg naturiol cylch Caerdydd. Enillodd radd dosbarth cyntaf yn y Gymraeg yng Nghaerdydd, cyn mynd ymlaen i ennill gradd MA a gradd Doethur. Bu'n athrawes Gymraeg ym Mhen-y-cae (Ebbw Vale) a Bryn-mawr am ugain mlynedd, cyn dychwelyd i Adran y Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol yng Nghaerdydd. Yn yr 1960au a'r 70au bu'n cyfarwyddo'r Uned Ymchwil Ieithyddol a oedd newydd ei sefydlu yno. Yn 1993 cyhoeddodd ddwy gyfrol swmpus oedd yn rhoi disgrifiad manwl o dafodiaith Nantgarw.*

*Ymhlith ein hatgofion amdani yma yn yr eglwys y mae ei 'custard slices' i bob te parti, ei gofal di-ffael wrth osod bwrdd y cymun yn fisol (a rhannu gweddillion y bara â'r plant yn y gegin wedi hynny), ei holi heriol yn yr ysgol Sul, a'i pharodrwydd i gywiro ein Cymraeg gwallus ac i'n rhoi ni yn ein lle pan oedd angen*

# nwen H. Thomas

*hynny! Diolch i Dduw am y fraint o'i chael yn ein plith am gynifer o flynyddoedd.*

*Yn 1985 ysgrifennodd Dr Ceinwen ei thystiolaeth ar gyfer un o gyhoeddiadau'r eglwys, a phriodol yw i ni ei hatgynhyrchu yn awr yn y Cwmpawd. Dyma, felly, hanes ei phererindod ysbrydol yn ei geiriau hi ei hun:*

Cefais fy ngeni i deulu a oedd wedi teimlo profiadau grymus Diwygiad 1904-05, yn enwedig fy mam. Yr oedd crefydd, felly, yn cyfrif yn ein tŷ ni, crefydd a gâi'r enw 'efengylaidd' heddiw. Byddai fy mam yn mynd â'm brawd a minnau, nid yn unig i oedfaon y Sul, ond i gyrddau'r wythnos hefyd a chawsom ein derbyn yn aelodau yn ddeuddeg oed. Ni ddywedaf 'yn gyflawn aelodau'. Llawer rhy ifanc ac anaeddfed oeddem i hynny, ond yr amcan oedd sicrhau gafael ar yr ifanc yn nechrau cyfnod cythryblus llencyndod.

Pan oeddwn tuag ugain oed, cefais brofiad ysgytiol, nad gwiw manylu arno mwyach, a'm cael fy hun, o ganlyniad, 'ar faes y byd', wedi cael briw i'm henaid. Ac ar faes y byd y bûm am lawer blwyddyn, heb feddwl fawr am grefydd na cheisio ystyried beth a gredwn fy hun, heblaw bod siarad crefyddol fy mam yn mynd i ymddangos yn fwy a mwy 'hen ffasiwn'.

Er hynny, wrth wrando ar gyfeillion yn traethu ar y ddiwinyddiaeth fodern ac eraill mwy gwyddonol eu gogwydd yn egluro'r cread, sylweddolwn nad oedd – i mi, o leiaf – un ystyr mewn byd a Duw ymhell, na synnwyr mewn credu bod y byd – y bydysawd – wedi ymffurfio trwy ryw hap, heb law un Bod anfeidrol yn eu llunio nac yn ymddiddori yn ei gread. Yr oeddwn, mewn gair, mewn math o dir neb, heb allu derbyn y ddysgeidiaeth fodern na dal fy ngafael ar ddysgeidiaeth bore oes.

Wedi dod i Gaerdydd, dechreuais fynychu un o eglwysi Cymraeg y ddinas, i blesio fy mam yn fwy

**(parhad ar dudalen 13)**

# Chwerthin a chrio

## *Catrin Lewis*

> *Y peth gorau am fod yn rhiant yw gwybod eu bod yn ddiogel yn eich gofal.*
>
> *Y peth gwaethaf yw poeni pan dydyn nhw ddim yn ateb eich neges destun.*
>
> *Liz Williams*

Diolch i rai o rieni'r eglwys am rannu eu profiadau o fagu plant! Efallai bod 'chwerthin' a 'chrio' yn crynhoi'r emosiynau amlycaf. Mae llyfrau di-ri wedi eu cyhoeddi ar y pwnc gan seicolegwyr, rhieni, cymdeithasegwyr, Cristnogion ac anffyddwyr, a phob un ohonynt yn cynnig rhyw berlau o ddoethineb. Beth ellir ei ddweud mewn erthygl fer fel hon, felly? Wel, dim mwy nag agor y maes, ac annog rhieni i drafod gydag eraill, darllen llyfrau da ar y mater, ac yn bennaf oll i geisio doethineb a nerth gan Dduw.

Mae rhai llyfrau yn cael eu hargymell ar waelod yr erthygl, ond yn y pen draw dim ond un llawlyfr y galla' i ei argymell 100% a hwnnw, wrth gwrs, yw'r Beibl. Mae gair Duw bob amser yn berthnasol ac yn gyfoes, am mai Ef sydd wedi'n creu ni. Mae'r Beibl yn rhoi darlun cywir i ni o blant ac o rieni fel ei gilydd.

**Heeeelp!**

Rydym ni fel rhieni yn gyfrifol am les corfforol, meddyliol, emosiynol ac ysbrydol ein plant. Sut y gallwn ni ymdopi â hyn i gyd? Wel, mae'r Beibl hefyd yn addo doethineb a nerth. Mae llythyr Iago yn ein hannog i ofyn am ddoethineb: '*Os oes un ohonoch yn ddiffygiol mewn doethineb, gofynned gan Dduw.*' Ac mae'r proffwyd Eseia yn dweud bod Duw yn '*rhoi nerth i'r diffygiol, ac yn ychwanegu cryfder i'r di-rym'*. Dyna gysur mawr i ni rieni sydd mor aml yn ymwybodol o'n methiant. Gallwn weddïo'n hyderus am ddoniau sy'n cyfateb i'r dasg, nid tasg sy'n cyfateb i'n doniau ni.

Gallwn ddal gafael, hefyd, ar y ffaith bod Duw yn cydymdeimlo â'n gwendid fel rhieni. Peidiwn â cholli golwg ar y ffaith mai Duw gras yw Ef.

**Rhoddion**

Pan fydd y bylchau moel ar y

lawnt yn mynd ar ein nerfau, a'r darnau bach o lego dan y clustogau yn gwneud bywyd yn anghyfforddus, mae'n gallu bod yn anodd diolch am blant! Maen nhw'n gallu bod yn waith caled iawn. Ond, mae'r Beibl yn dweud wrthym mai rhoddion gan Dduw ydynt. Dylen ni, fel rhieni, ddiolch am bob rhodd dda, ac mae plant yn dod â llawer o brofiadau amhrisiadwy o werthfawr, wrth gwrs. Felly, byddwn yn gadarnhaol am ein plant, a'u mwynhau a'u trysori ym mhob cyfnod o ddatblygiad.

> *Y peth gorau am fod yn rhiant yw'r cariad sy'n cael ei roi a'i dderbyn - cronfa o gariad nad oeddem ni'n credu ei bod yn bosibl. Mae cariad at blant yn reddfol ac yn frawychus o bwerus.*
>
> *Y peth anoddaf yw gofid. Mae bod yn rhiant yn broses araf a hir o adael fynd, ond dyw'r gofid byth yn pallu. Rwy'n deall nawr pam nad oedd mam yn gallu cysgu tan 'mod i'n cyrraedd adre'.*
>
> *Rhodri Jones*

**Y dasg**

Beth yw ein dyheadau ar gyfer y plant mae Duw wedi eu hymddiried i'n gofal? Mae pob rhiant yn dymuno llwyddiant, hapusrwydd, iechyd ac yn y blaen i'w plant. Ond am beth y dylen ni ddyheu yn fwy na dim, ac at beth mae'n hymdrechion ni wedi eu hanelu? Ein dymuniad pennaf ddylai fod iddynt ddod i adnabod Crist fel gwaredwr ac arglwydd, achos dyma fydd eu lles a'u hapusrwydd tragwyddol, ac i hyn y cawsant eu creu.

> *Y peth gorau am fod yn rhiant yw cwtsio'n dynn.*
>
> *Y peth gwaethaf am fod yn rhiant yw eu gadael nhw i fynd.*
>
> *Phil Elis*

Mae Salm 51 yn dweud wrthym mai '*mewn drygioni y'n ganwyd*'. On'd yw hi'n anhygoel faint o egni mae plentyn bach yn gallu ei roi i mewn i'w *tantrum*! Ac on'd yw hi'n rhyfedd sut mae plant yn eu harddegau yn dewis peidio â chlywed cymaint o'r hyn mae eu rhieni yn ei ddweud? Bydd y rhan fwyaf o rieni gonest yn cydnabod bod pob plentyn yn gyfrol gyfan ar bechod gwreiddiol. Ond mae Duw yn gallu rhoi bywyd i bechaduriaid. Mae Duw mor gyfoethog yn ei drugaredd fel ei

*Y peth gorau am fod yn rhiant yw bod yn rhan o uned gref.*

*Y peth gwaethaf yw nad ydych chi'n cael 'day off' o gwbl.*

*Lois Bowen*

fod yn gallu gwneud y rhai sy'n farw mewn pechodau yn fyw gyda Christ.

A dyna'n tasg ni, yn y bôn, fel rhieni Cristnogol: ceisio arwain ein plant at Dduw. Gallwn ni eu gosod dan weinidogaeth y Gair mewn cyfarfod, ysgol Sul, clwb neu wersyll, ac ar yr aelwyd, wrth gwrs. Gallwn ni siarad â nhw am Dduw bob dydd yn nhrefn naturiol pethau, wrth deithio yn y car neu wrth gael pryd o fwyd o gwmpas y bwrdd. Dyw hynny ddim yn gallu digwydd oni bai ein bod ni'n sicrhau amser i'r teulu, ac yn gwneud yn siŵr ein bod ni ar gael i'n plant.

**Yr hyfforddwr**

Gair Duw, sef y Beibl, yw'r hyfforddwr gorau i'w harwain at Dduw. Felly, ydy gair Duw yn bwysig i ni fel rhieni yn y lle cyntaf? Mae plant yn feistriaid ar y grefft o weld trwy ragrith. Rhown le i'n bywyd ysbrydol ni yn y lle cyntaf, gan adael i'r plant ein gweld ni'n ymhyfrydu yng ngair Duw. Ydyn nhw'n ein clywed ni, rieni, yn trafod a chymhwyso gweinidogaeth y Sul?

**Gweddi**

Yn y pen draw gwaith Duw yn unig yw eu hachub. Felly un o'n harfau pwysicaf fel rhieni yw gweddi. Gallwn ni weddïo drostyn nhw a gyda nhw, a gallwn eu dysgu nhw i weddïo. Yn wyneb ein hanallu ni, diolch am y cysur mawr sy'n dod o'r addewid yn llythyr Iago mai '*peth grymus iawn ac effeithiol yw gweddi y cyfiawn*'.

**Amynedd**

Yn anffodus, mae cymdeithas bellach yn dueddol o gysylltu disgyblaeth â diffyg cariad. Ond



mae'r Beibl yn dysgu'n hollol groes i hynny. Diffyg cariad yw diffyg disgyblaeth. Mae disgyblaeth yn gallu cymryd sawl ffurf – mae sawl ffordd o gael Wil i'w wely (nid Wil George!). Mae'n cynnwys eu dysgu, gosod esiamplau da ger eu bron, eu helpu i ddatblygu hunan-ddisgyblaeth ac arferion da. Wrth ddisgyblu, gwaetha'r modd, mae angen symud ymlaen hefyd i gywiro a chosbi, ond bob amser mewn cariad a gydag amynedd. Trugarog, llawn cariad, araf i lid: dyna nodweddion ein tad nefol. Dyw'r trugaredd yma ddim yn cau allan disgyblaeth, wrth gwrs. Roedd cenedl Israel yn gallu tystio i hynny.

Mae Effesiaid 6:4 yn rhybuddio tadau i beidio â chythruddo eu plant. Gallwn ni fel rhieni fod yn feistriaid ar y grefft o weld beiau ein plant, gan esgeuluso, efallai, eu canmol am eu rhinweddau. Mae angen inni nabod ein plant, fel bod y ddisgyblaeth yn briodol ac yn addas i'r unigolyn. Bydd edrychiad difrifol yn ddigon i ddod â ffrwd o ddagrau ac edifeirwch i un plentyn, ond bydd angen llaw gadarnach ar un arall. Bwriad disgyblaeth yw trin y galon nid torri calon. Dywedodd Dr Martyn Lloyd-Jones, *'Never [punish] in such a way that the child feels that he is being trampled upon and being utterly humiliated."*

> *Y pethau gorau am fod yn rhieni yw'r 'cwtshys', y chwerthin a'r teimlad rych chi'n ei gael pan mae'ch plentyn yn gweiddi am 'Mam' neu 'Dad'.*
>
> *Y peth gwaethaf am fod yn rhiant yw ei bod hi'n anodd iawn i beidio â phoeni am eich plant, a'u dyfodol.*
>
> *Leri George*

Mae angen cysondeb disgyblaeth rhwng y ddau riant, fel na fydd plentyn yn apelio i un ar draul y llall. Mae angen cysondeb o ddydd i ddydd hefyd. Mae angen i blant wybod beth yw'r terfynau, a dylai'r terfynau hynny fod yn gyraeddadwy, yn glir ac yn gyson. Ydyn ni'n disgyblu yn y fath ffordd sy'n dangos mai duwioldeb yw'r rhinwedd bwysicaf i ni? Gyda chywilydd, rwy'n sylweddoli fy mod yn ymateb yn fwy diamynedd weithiau pan fydd diod yn cael ei dywallt ar y bwrdd, na phan fydd plentyn yn dangos arwyddion o dwyll neu ddiffyg parch. Diolch eto am ras a maddeuant!

**Gollwng gafael**

Mewn un ystyr, nid ein plant

*ni* ydyn nhw. Mae Duw yn eu hymddiried nhw inni dros dro. Pan ddaw babi bach i'r aelwyd, mae popeth yn newid. Rhaid baglu dros y pram pan fyddwn ni'n agor y drws blaen. Mae ein hamserlen fel rhieni yn newid yn llwyr. Ond, yn fuan iawn, bydd plentyn yn datblygu agwedd hunanol os caiff le i gredu bod popeth yn troi o'i amgylch ef. Anogodd Paul y Philipiaid i beidio â *'gwneud dim o gymhellion hunanol'*, ac wrth wneud yn siŵr bod plentyn yn gorfod ystyried anghenion pobl eraill fe fyddwn yn ei helpu i ddeall ystyr hynny. Felly, dyna anogaeth i ni rieni i beidio ag esgeuluso ein priodas, ein heglwys na'n ffrindiau. Bydd y pethau hyn yn dal gyda ni ar ôl i'r plant fod yn annibynnol, yn nhrefn naturiol pethau.

**Helpu'n gilydd**

Mae llythyr Paul at Titus yn annog y Cristnogion i hyfforddi a dysgu oddi wrth ein gilydd. Peidiwn â cholli cyfle felly i ddweud gair i annog rhieni, i ganmol eu plant, i gynnig ac i dderbyn cyngor ac i weddïo dros y rhai sydd ar flaen y gad yn y dasg o hyfforddi plant. Mae amser gan rai ohonom i gynnig gwarchod am noson er mwyn i gwpwl blinedig fwynhau noson i ffwrdd. Un o freintiau plant sy'n cael eu magu mewn cylchoedd Cristnogol yw'r llu o Wncwls ac Antis sy'n cyfoethogi eu plentyndod. Mae teulu'r eglwys yn beth arbennig iawn, felly helpwn ein gilydd trwy'r chwerthin a'r crio.

Roger Ellsworth, ***What the Bible teaches about ... Christian Parenting*** (Evangelical Press, 2007), £6.95
*Llyfr sy'n cyffwrdd ar lawer o egwyddorion Beiblaidd, ond hefyd yn ymarferol. Cyflwyniad da i'r maes.*

H Clay Trumbull, ***Hints on Child Training*** (Great Expectations Book Co., 1993)
*Mae'r llyfr gwreiddiol bron yn 100 mlwydd oed, ond mae'n dal i fod yn hynod o berthnasol.*

Tedd Tripp, ***Shepherding a child's heart*** (Shepherd Press, 1995), £6.95
*Llyfr hyfryd sy'n pwysleisio trin calon plant, yn ogystal â dysgu ymddygiad allanol.*

***James Dobson on Parenting – Two in One Volume*** (Inspirational Press, 1997) £9.99

Kent a Barbara Hughes, ***Disciplines of a Godly Family*** (Crossway, 2004), £12.99

(parhad o dudalen 7)

na dim, a chefais dderbyniad caredig a'm tywys, gan y gweinidog, Mr R. J. Jones, i ailgydio mewn aelodaeth eglwysig. Y mae fy nyled iddo am ei gymorth yn y cyfnod hwn yn anfesuradwy. Nid oedd amgylchiadau fy mywyd ar y pryd yn caniatáu imi fod yn ffyddlon fel y dysgwyd imi ddeall y gair hwnnw ac yn raddol dyma lithro allan 'i'r byd' unwaith eto.

Yna, ryw bedair blynedd yn ôl, deuthum i wybod am Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd a mentro yno ryw fore Sul. Yr oedd awyrgylch yr eglwys fechan yn f'atgoffa o awyrgylch cyrddau'r wythnos fy mhlentyndod: y gynulleidfa'n gynnes ei chroeso ac yn araf i ymwahanu ar ddiwedd yr oedfa. Gwn erbyn hyn, nad oes byth brys i ymwahanu a bod dysglaid o de a bisgïen ar ôl cwrdd i ddenu pawb i oedi mwy fyth ac i roi cyfle i ddod i adnabod y rhai sydd wedi troi i mewn. Gwn, hefyd, fod y rhain, fel ffyddloniaid cyrddau'r wythnos gynt yn Nantgarw, a'u ffydd yn sicr a honno'n 'hen ffasiwn': 'Mi a wn i bwy y credais', a'u bod yn cymryd eu proffes o ddifrif. Os bod yn Gristion, bod yn Gristion a gwybod beth yw ystyr hynny yn eich bywyd a'ch ymarweddiad. Yn y misoedd nesaf, bu'n rhaid i minnau, wrth wrando ar y manylu o'r pulpud ar ystyr bod yn Gristion, ailfeddwl fy sefyllfa a'm credo innau o ddifrif a cheisio hefyd ddod i sicrwydd cyffelyb i'r hyn a welwn o'm cwmpas.

Clywaf rai'n dweud fel y bu iddynt brofi cynnwrf tröedigaeth a bod ganddynt sicrwydd iachawdwriaeth. Nid felly'n union y digwyddodd pethau i mi, ond credaf fod ffydd yng ngras Duw i achub ac i arwain y pechadur ac ymgais ddidwyll i ddilyn y Ffydd orau y gallaf yn ddigon. Y darlun a rydd Ioan y Difinydd yn llyfr y Datguddiad (3:20) sy'n aros yn gysur i mi: 'Wele, yr wyf yn sefyll wrth y drws, ac yn curo: os clyw neb fy llais i, ac agoryd y drws, mi a ddeuaf i mewn ato ef, ac a swperaf gydag ef, ac yntau gyda minnau.' Profiad tawel, diddrama, ond ac ynddo hedyn twf ac aeddfedrwydd, yw croesawu Cyfaill i'r tŷ i swper a sgwrs.

# Gwyliau Gwych!

## *Aled Lewis ac Owain James*

Yn ystod gwyliau'r Pasg, fe aethom ni ar drip y capel i Sir Benfro. Cyrhaeddodd pawb yn ddiogel – diolch byth! – ac yna mynd i ddadbacio a ffeindio'u stafelloedd. Ar ôl i bawb ddod yn gyfarwydd â'r awyrgylch, roedd hi'n amser bwyd; cawson ni *lasagne* hyfryd, a Rhodri George yn bwyta mwy na phawb arall! Yna aeth y bechgyn da (Owain, Aled a Gerwyn) i olchi llestri cyntaf y gwyliau.

Ar ôl swper cynhaliwyd cwis cŵl Huw P. – a dyma wrthdaro'n dechrau yn barod, rhwng Huw a Manon, a dros gân o bopeth! Rydym bellach yn gallu datgelu taw Huw oedd yn iawn ...

Roedd epilog a phaned nesa, ac ar ddiwedd diwrnod blinedig, aeth pawb i'r gwely a mynd i gysgu'n syth. Pawb, hynny yw, ond trigolion stafelloedd 1 (y bechgyn) a 2 (teulu'r Woolleys). Y bore wedyn cafodd stafell 2 gyfle i ddial arnon ni gydag arf gyfrinachol – sef anfon Dafydd i mewn i'n dihuno ni. Gallen ni weld o wynebau Chris ac Angharad nad oedden nhw'n hapus iawn. Yn wir, fydden ni ddim wedi synnu pe bydden nhw wedi poeri yn ein huwd!

Ar ôl brecwast cawsom astudiaeth fer gyda Dewi, cyn rhannu'n grwpiau ar gyfer gweddi agored. Cafodd y ddau ohonom fendith fawr o'r gweddïo agored, teimlon ni agosrwydd at Dduw ac aelodau'r eglwys, a chael anogaeth i weddïo dros fwy o'r aelodau a'u ffrindiau a'u teuluoedd.

Aeth pawb i'w ffordd ei hun am ginio, a chwrdd yn ôl yn y ganolfan erbyn dau o'r gloch i barotoi i fynd i'r traeth. Ar ôl inni gyrraedd, fe es i (Owain) i mewn i ogof fach a chael fy nghau i mewn gan Gerwyn. Aeth y bechgyn i chwarae rygbi tra bod y merched ac Ifan yn sgwrsio (i fod yn deg, roedd e wedi anafu ei bigwrn), ac ar ôl sbel fe ddechreuon ni gêm o gŵb. Oherwydd agwedd negyddol Jeni at y tîm arall, fe ddechreuon nhw weiddi'n ôl yn uwch. Ond er hynny, tîm Jeni enillodd. Yn y cyfamser, ar ochr arall y traeth, dyma Jon ac Ifan yn newid i mewn i'w shorts nofio gan eu bod yn meddwl y byddai mynd i'r môr yn syniad da! Gallwn adrodd fod Jon yn las am oriau wedyn.

Ar ôl cyrraedd nôl roedd caserol selsig yn aros amdanom. A

defnyddio hoff air Jon – 'Hyfryd!' Unwaith roedd y babanod yn eu gwlâu fe ddechreuodd y cwis dan ofal Gwydion ('Dad' – Aled). Roedd yn hollol wahanol i gwis Huw, ond yr un mor dda. A'r tro yma nid oedd unrhyw ddadlau.

Clywsom fod epilog Chris yn dda iawn ond yn anffodus fe gollon ni'r cwbl wrth chwilio am ffilm. Doedd gan yr un ohonom yr hyder i gerdded i mewn yn hwyr (sori, Chris). Yn nes ymlaen, aethon ni i'r stafell deledu i wylio ffilmiau sef *Shrek 3* a *Nacho Libre*, ac wedyn cripian lan i'r gwely'n dawel a mynd i gysgu – er mawr ryddhad i'r Woolleys.

Y bore wedyn daeth larwm wahanol i'n deffro, sef Gruff (yn rhuo fel llew) a Fflur ( yn dawnsio fel tywysoges). Roedd brecwast yn flasus, ond wnaethon ni ddim mentro'r uwd, rhag ofn. Ar ôl astudiaeth fendithiol oddi wrth Gwydion/Dad, aeth rhai i'r parc a 'ngadael i (Owain) ar ôl. Ar ôl dychwelyd (y rhai oedd wedi mynd, hynny yw!)) cawsom ni ein pryd ola gyda'n gilydd, sef 'cinio cymysg' y bwydydd oedd ar ôl.

A dyna ddechrau ar waith caletaf oll y gwyliau – pacio a thacluso a sorto allan biceri y babanod (a sanau brwnt Ystafell 1 – *Golygydd*), ac wedyn mynd adre.

Hoffen ni ddiolch i bawb a wnaeth y gwyliau yn gymaint o hwyl – ond yn arbennig i Amanda am drefnu'r cwbl, a phawb a helpodd gyda threfniadau'r bwyd.

**'Hyfryd!'**



*Holi Hwn a Hon*

# Jon Gla

Cyfweliad â Jonathan Glanfield, sy'n dod yn wreiddiol o Wlad yr Haf ond sydd wedi symud i Gaerdydd ac ymgartrefu yn yr Eglwys yn ddiweddar ac wedi bwrw ati o ddifrif yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i ddysgu Cymraeg.

**Beth yw dy waith?**
Dwi'n gweithio i gwmni yswiriant yng Nghaerdydd. Rydw i'n ysgrifennu polisïau yswiriant ar gyfer cwmnïau ar draws de Cymru.

**Sut y dest ti'n Gristion?**
Dwi wedi mynd i gapel yn Lloegr pryd roeddwn i'n ifanc ond dydw i ddim wedi dechrau meddwl am bethau Cristnogol tan roeddwn i ar fy mlwyddyn gap (cyn mynd i'r brifysgol). Roeddwn i yn gweithio ar fferm ac roedd y gwaith yn beryglus iawn. Ar yr un pryd doeddwn i ddim yn hapus gyda fy mywyd. Doedd gen i ddim hedd am sut roeddwn i'n byw fy mywyd. Wnes i ddechrau meddwl, 'Oes yna Dduw a beth sy'n digwydd i chi pan chi'n marw?'. Dwi wedi dechrau mynd i lot o gapeli gwahanol. Ond dydw i ddim wedi ffeindio y Gwirionedd. Wedyn, dwi wedi mynd i Brifysgol Aberystwyth a ges i fy gwahodd i fynd i gapel Alfred Place. Dwi wedi mynd a chlywed yr efengyl am y tro cyntaf. A trwy'r pregethu yna dwi wedi dysgu bod Duw wedi anfon ei Fab i gymryd y gosb am y pethau dwi wedi eu gwneud yn rong. Pan wnes i ddechrau credu ges i hedd yn fy nghalon.

**Pa fath o lyfrau wyt ti'n hoffi eu darllen?**
Dwi wedi bod yn darllen drwy lyfr Haggai yn fy amser tawel. Roedd yn wych i fy helpu i feddwl am beth sy'n bwysig mewn bywyd, ac ydw i'n defnyddio fy amser yn iawn i ddweud wrth bobl am Dduw.

# nfield



**Beth yw dy hoff emyn/cân ysbrydol?**
Dwi'n hoffi hen emynau. Fy hoff emyn yw'r emyn Saesneg 'It is well with my soul'. Mae'n helpu fi i feddwl dim ots beth sy'n digwydd lawr yma yn y byd, mae fy enaid yn saff gyda Duw.

**Beth sy'n help i ti yn dy gerddediad ysbrydol?**
Siarad gyda hen bobl yn yr eglwys. Maen nhw wedi profi lot a maen nhw'n gallu helpu ti trwy broblemau y bywyd Cristnogol a dangos i ti ble yn y Beibl sy'n gallu dy helpu di.

**Sut y byddi di'n treulio d'amser hamdden?**
Roeddwn i'n arfer chwarae rygbi a criced ond nawr rwy'n hoffi gwylio. Dydw i ddim yn cael chwarae rygbi nawr dwi wedi priodi!

**Pa wlad hoffet ti ymweld â hi, a pham?**
Byddwn i'n hoffi mynd i Batagonia i weld y gymdeithas Gymraeg mas yna. Hefyd mae lot o stêc a rygbi mas yna! Neu fynd o gwmpas Ynysoedd y Pacific. Dwi'n hoffi darllen am ynysoedd gwahanol a diddorol. Rywle fel Tonga efallai – mae'r bwyd i fod yn wych yno hefyd!

**Sut wnest ti ac Eleri gyfarfod?**
Gwnaethon ni gwrdd yn Aberystwyth yn yr Undeb Cristnogol. Wedyn es i i weithio yn Gibraltar felly doedden ni ddim wedi gweld ein gilydd am flynyddoedd. Wnaethon ni gwrdd eto yng Nghaerdydd llynedd a phriodi ym mis Ionawr eleni. Rydyn ni yn byw yn Grangetown nawr.

# Newyddion

**Dyweddiad**
Llongyfarchiadau mawr i Catrin Williams ac Andy Gardiner ar eu dyweddïad. Bydd Andy a Catrin yn priodi ym mis Medi a dymunwn y gorau iddynt wrth iddynt baratoi at y diwrnod mawr, ac wrth i Andy setlo i mewn yn y fflat newydd yn y Rhath.

**Gweithiwr Relay**
Llongyfarchiadau hefyd i Steffan Elis ar gael ei dderbyn yn weithiwr *relay* gyda UCCF. Bydd Steffan yn dechrau ei waith gyda myfyrwyr yma yng Nghaerdydd mis Medi nesaf, ac edrychwn ymlaen at gael gweld mwy ohono wrth iddo symud yn ôl i'r Brifddinas.

**Gwyl Ddewi**
Daeth nifer ynghyd i ddathlu Gŵyl Ddewi yn yr eglwys mewn noson cwis a chawl, a chawsom ein hatgoffa gan Gwynn o'n treftadaeth Gristnogol fel Cymry. Diolch i bawb a gyfrannodd at y noson.

**Cadw'n Heini**
Croeso i ferched o bob oed ymuno â'r criw sydd bellach yn cyfarfod yn yr eglwys bob nos Lun, rhwng 8 a 9pm, ar gyfer *circuit training*. Cyfle gwych i ymarfer corff a chyfarfod â ffrindiau. Mae'r pêl-droedwyr yn parhau i gyfarfod am 8pm bob nos Iau, yn y 'Powerleague' yn yr Eglwys Newydd.

**Dyddiadau i'r dyfodol:**

**Cyfarfodydd Eglwys Newydd**
6.30pm, Capel y Tabernacl
Mai 4 - Gwynn Williams
Mehefin 1 - Rhodri Jones
Gorffennaf 6 - Gwynn Williams

**Bore Coffi Dysgwyr**
Dydd Sadwrn, Mai 17, 10.30-12.00.
Siaradwr: John Emyr.

**Gwyl Eglwysi'r De**
Cynhelir Gwyl Eglwysi'r De eleni yn Nhrefeca ar ddydd Sadwrn, Mai 17. Y siaradwr fydd Dafydd Protheroe Morris, sydd nawr yn gweithio i'r *Proclamation Trust*. Cost y diwrnod yw £5, sy'n cynnwys cinio. Gwelwch Gwydion Lewis am fwy o fanylion.

# I'r Dyddiadur

## *Yn ystod yr wythnos...*

**Cyfarfod Gweddi** | nos Fawrth | 7.30pm
**Paned a Sgwrs** | bob yn ail fore Mawrth | 10.00am
**Cylch y Plant Bach** | bore Gwener | 10.00 - 11.30am

Cynhelir y gweithgareddau uchod yn adeilad yr eglwys

## *Ar ddydd Sul...*

Oedfaon am 10am a 6pm yn adeilad yr eglwys ar gornel Stryd Rhymni/ Stryd Harriet, Cathays, Caerdydd. Mae paned yn dilyn pob oedfa, a chynhelir yr Ysgol Sul yn ystod tymhorau'r ysgol (11.45 – 12.30am).

| | | |
|---|---|---|
| *Mai* | *4* | *Gwynn Williams / Lewis Roderick* |
| | *11* | *Gwynn Williams* |
| | *18* | *Gwynn Williams / Lewis Roderick* |
| | *25* | *Gwynn Williams* |
| *Mehefin* | *1* | *Sulwyn Jones* |
| | *8* | *Gwynn Williams* |
| | *15* | *Gwynn Williams* |
| | *22* | *Gwynn Williams / Lewis Roderick* |
| | *29* | *Gwynn Williams / Lewis Roderick* |
| *Gorffennaf* | *6* | *Gwynn Williams / Lewis Roderick* |
| | *13* | *Gwynn Williams / Lewis Roderick* |

**Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd**
**Stryd Rhymni, Cathays, Caerdydd**

**www.cwmpawd.org**